# Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Datblygu Cymunedol

## Cefndir

Mae Mentrau Iaith yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn eu cymunedau lleol. Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yn 1991, ac erbyn hyn mae 22 Menter Iaith yn gwasanaethu pob rhan o Gymru. Lleolir swyddfa Menter Iaith Sir Ddinbych yn Ninbych, ac rydym yn gweithio ar draws y sir o Brestatyn a Rhyl yn y gogledd, i fyny Dyffryn Clwyd ac at Llangollen a Chorwen yn y de.

## Gwaith Menter Iaith Sir Ddinbych

Mae'r Mentrau Iaith yn un o bartneriaid allweddol Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu ar lawr gwlad i wireddu amcanion Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg sy'n nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae pob Menter Iaith yn gweithredu mewn ffordd unigryw yn ddibynnol ar anghenion lleol. Ein prif feysydd gwaith yma yn Sir Ddinbych yw:

**Teuluoedd**: Mae ein gweithgareddau a phrosiectau yn annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref, tynnu sylw at fanteision dewis Addysg Gymraeg, a chefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal a chwarae.

**Plant a Phobl Ifanc**: Rydym yn gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth hamdden a chymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol tu allan i'r ysgol.

**Y Gymuned**: Trwy gydweithio â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu cymunedau eu hunain rydym yn gweithio i gryfhau'r iaith fel iaith gymunedol, naturiol. Mae gan y Mentrau Iaith amcanion sy'n gweithio tuag at annog i bobl ddyblu eu defnydd o'r Gymraeg.

## Prif Gyfrifoldebau

- Gweithio gyda staff eraill Menter Iaith Sir Ddinbych i drefnu a chynnal gweithgareddau blaengar a phoblogaidd sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol a hwyliog;
- Datblygu a gwerthuso gweithgareddau penodol a flaenoriaethwyd yng nghynllluniau Menter Iaith Sir Ddinbych, yn arbennig rhai i blant, teuluoedd a phobl ifanc;
- Cynorthwyo'r Swyddog Cyllid i reoli gwariant cyllideb gweithgareddau'r Fenter;
- Cydweithio â phartneriaid y Fenter i gefnogi unrhyw weithgaredd sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol;
- Cynorthwyo i greu a pharatoi deunyddiau marchnata a datblygu ymgyrchoedd marchnata penodol fel bo'r angen;
- Cynorthwyo i weithredu Cynllun Marchnata'r Fenter a chodi ei phroffil lleol a chenedlaethol;
- Mynychu cyfarfodydd ar ran y Fenter fel bo angen.

## Telerau'r Swydd

| | |
|---|---|
| **Cyflog**: | Cyflog cychwynnol: £24,200 gros (neu pro rata) + cyfraniad pensiwn cyfatebol hyd at 7% |
| **Costau Teithio**: | Telir costau teithio o 45c y filltir. |
| **Oriau Gwaith**: | 37 awr yr wythnos* |
| **Amrywiadau i Oriau Gwaith** | Fel arfer Llun – Gwener, ond bydd disgwyl i'r sawl a benodir weithio oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd yn unol â galwadau gwaith (ee ambell weithgaredd / cyfarfod gyda'r hwyr neu ar benwythnos). Mae'r Fenter yn gweithredu polisi gweithio hyblyg, sy'n golygu cymryd oriau yn ôl 'in lieu' o fewn mis – ni thelir cyflog oriau ychwanegol (overtime). |

*Croesewir ceisiadau gan bobl sydd am weithio llai o oriau neu rannu'r swydd.

| | |
|---|---|
| **Gwyliau**: | Yn ogystal â gwyliau banc statudol, cynigir 28 diwrnod y flwyddyn o wyliau yn cynyddu fesul diwrnod bob blwyddyn wedyn hyd at 33 diwrnod. |
| **Hyd y Cytundeb**: | Cynigir cytundeb parhaol yn amodol ar adolygiad perfformiad boddhaol ar ôl cyfnod prawf o chwe mis. Bydd cynaladwyedd y swydd hefyd yn ddibynnol ar sicrhau cyllid digonol yn y dyfodol ac adolygiadau perfformiad boddhaol yn flynyddol. |
| **Strwythur Rheoli:** | Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych. Byddwch yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Sir Ddinbych. |

| | |
|---|---|
| **Rhybudd Terfynu Swydd:** | 1 mis (hyd at 5 mlynedd o gyflogaeth, wedyn yn cynyddu 1 wythnos ychwanegol am bob blwyddyn gyflawn o wasanaeth di-dor hyd at uchafswm o 12) |
| **Lleoliad:** | Lleolir swyddfa y Fenter yn Y Farchnad Fenyn, Llain y Capel, Dinbych. LL16 3TU. |

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Amodau**
Bydd unrhyw gynnig yn amodol ar gliriad uwch DBS

**Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2025 ac fe'i adolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

## Manyldeb Person

### Meini prawf angenrheidiol:

- Yn ymrwymedig i'r Gymraeg ac yn frwdfrydig dros ei hyrwyddo
- Profiad o weithio'n ddwys gyda theuluoedd, plant a/neu bobl ifanc
- Yn meddu ar syniadau blaengar a chreadigol
- Yn gallu gweithio'n effeithiol ac yn hyblyg fel aelod o dîm ac yn annibynnol
- Yn gallu cydweithio ac ysbrydoli eraill
- Yn drefnus ac effeithiol
- Yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da, a hynny'n rhugl ddwyieithog Cymraeg / Saesneg) ar lafar ac ysgrifenedig
- Yn meddu ar sgiliau technoleg gwybodaeth da
- Trwydded yrru a defnydd o gar ar gyfer teithio perthnasol i, ac o fewn y gwaith yn hanfodol

### Meini prawf manteisiol:

- Byddai adnabyddiaeth o'r ardal yn fanteisiol
- Byddai Gradd neu safon addysg uchel o fantais
- Byddai cymhwyster a / neu brofiad o ddiogelu plant yn fanteisiol.

**Rhagor o fanylion**

Os hoffech ragor o fanylion am y swydd neu sgwrs anffurfiol cysylltwch â
Ruth Williams, Prif Swyddog ar 01745 812822 neu ruth@misirddinbych.cymru